| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD<br>BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 83 – Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4** |
| | **Cerdd Dant, Dyfan Roberts** |

Mae'r gwichian annaearol
'Di cychwyn bron ers saith,
A'r babi'n crio mwrdwr
Yn awr ers oriau maith
Fel mochyn bach yn mynd o'i go -
Mae rhywbeth mawr yn brifo Jo.

Mae Mami yn ei choban
Yn cerdded lan a lawr,
A Dad yn llyncu coffi -
Un du a chry a mawr -
Ond llais bach croch sy'n deffro'r fro -
Mae rhywbeth dal i frifo Jo.

Ond rhywbryd, tua pedwar,
Daeth heddwch pêr i'r tŷ,
A phawb i'w gwlâu i gysgu,
A bywyd fel y bu,
A rhywle, rhwng ei wefus o,
Daeth dant bach gwyn i geg fach Jo.